

# cta

community transport  
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



## Galw'r Gyrrwr Y Gelli a'r Cylch

### Prosiect Bws y Banc

Yn anffodus mewn mwy a mwy o gymunedau gwledig ledled Cymru, mae banciau dros-y-cownter a gwasanaethau bancio ar y stryd fawr yn cau. Mae poblogrwydd gwasanaethau bancio ar-lein yn golygu bod banciau'n diflannu o lawer o gymunedau gwledig. Mae hyn yn cael effaith aruthrol ar bobl sy'n dal i ddibynnu ar wasanaethau bancio dros-y-cownter a'r gofal cwsmer personol y gall staff banciau ei ddarparu.

Dyma fu'r realiti anffodus mewn tref farchnad wledig ym Mhowys. Ym mis Medi 2018, caeodd y banc dros-y-cownter olaf yn Y Gelli. Roedd hyn yn destun pryder mawr i drigolion lleol, yn enwedig pobl hŷn ac anabl sy'n dibynnu ar wasanaethau dros-y-cownter i wneud eu bancio, ac sy'n cael budd o natur gyfarwydd, wyneb yn wyneb y banc lleol a'r tawelwch meddwl a ddaw gyda hynny. Roedd cau'r banc hefyd yn peri pryder i lawer o bobl sy'n methu cyrraedd trafndiaeth gyhoeddus neu sydd heb gar ac sy'n methu cyrraedd trefi eraill lle mae banciau dros-y-cownter yn dal i ddarparu gwasanaethau.

**O weld yr angen hwn, a deall y byddai cau banciau'r Gelli yn cael effaith niweidiol ar nifer o blith ei 300 o aelodau, cynhaliodd Galw'r Gyrrwr Y Gelli a'r Cylch arolwg teithwyr a pheilot cychwynnol i brofi syniad 'Bws y Banc'.** Yn dilyn peilot Bws y Banc, a oedd yn darparu gwasanaeth bws mini hygyrch, o ddrws i ddrws, o'r Gelli i dref gyfagos Aberhonddu, gan alluogi teithwyr i gyrraedd gwasanaethau bancio, ynghyd â gwasanaethau hanfodol eraill a chyfleoedd cymdeithasol, cytunwyd bod galw mawr am drefniant cludiant cymunedol parhaol.

**Ddiwedd mis Rhagfyr 2018, gan weithio mewn partneriaeth â thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru, datblygodd Galw'r Gyrrwr y Gelli gais cyllido llwyddiannus i gynllun grant Arian i Bawb y Gronfa Loteri Fawr i allu gwneud hynny, gan ennill cyllid i barhau â pheilot cychwynnol Bws y Banc.**

Ers derbyn cyllid grant, mae Bws y Banc wedi parhau i ddarparu teithiau am ddim i aelodau Galw'r Gyrrwr Y Gelli i gyrraedd y banciau ac ystod o gyfleusterau a gwasanaethau eraill yn Aberhonddu. Elfen bwysig arall o brosiect Bws y Banc yw rhoi cyfle i bobl fynd allan o'r tŷ, cwrdd â ffrindiau ar y bws a rhoi rhywbeth i deithwyr edrych ymlaen ato. Mae'r budd cymdeithasol ychwanegol hwn wedi helpu aelodau unig ac agored i niwed Galw'r Gyrrwr Y Gelli i wella eu lles a theimlo'n llai ynysig.

Esboniodd Lesley Moore, Prif Weithredwr Galw'r Gyrrwr Y Gelli a'r Cylch:

"Mae'r prosiect yn achubiaeth i lawer o'n haelodau ac mae'n golygu llawer mwy na dim ond cyrraedd gwasanaethau bancio. Mae'r prosiect yn lleddfu tipyn ar bryder y bobl hynny sydd eisiau gwneud eu bancio mewn ffordd 'draddodiadol'. Yn ogystal, mae'r prosiect yn ffordd wych i deithwyr gwrdd â ffrindiau hen a newydd, mynd i siopa, cael cinio ac wrth gwrs, cael sgwrs ar y daith. Mae Bws y Banc hefyd yn rhoi rhywbeth i aelodau edrych ymlaen ato, yn enwedig y rhai sy'n unig ac sydd ddim yn cael gweld eu teulu neu ffrindiau yn aml.

Byddwn ni'n sicr yn edrych am gyllid pellach yn y dyfodol i barhau â'r gwasanaeth, gan weithio mewn partneriaeth â thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru. Rydyn ni'n gwybod am gymunedau gwledig eraill sydd wedi colli eu banciau dros-y-cownter ac fe hoffem gynnig cymorth a chyingor i helpu darparwyr cludiant cymunedol a mudiadau sy'n dymuno sefydlu prosiect bws banc tebyg i'n un ni."

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn [ctauk.org/cciw-cymraeg](http://ctauk.org/cciw-cymraeg).**

